

Y darn buddugol - Jonas Thungren Lindbärg

### **Ystafell efo golygfa**

Mae'r olygfa yn galonogol iddo fo, fel rhywbeth cynnes, diogel neu gyfforddus, fel cof o'r plentyndod, o amser heb drwbl. Dim ond breuddwyd oedd y fath o amser wrth gwrs, ac efallai fod yr olygfa hefyd yn galw ar freuddwyd mwy na chof. Wedi'r cyfan, dydi o erioed wedi gweld y golwg hwn, erioed wedi dringo'r bryn hwn, erioed wedi gwrandao ar y môr hwn, eto mae'r enaid yn gwybod mai ei gartref ydi'r lle hwn.

Morwr ydi o, morwr breuddwydion, yn teithio drwyddyn nhw pan ydi'r byd ar ddihun yn rhy anodd. Gan ddychymyg mae ei long wedi cael ei ffurfio, iaith yw ei hwyliau hi. Mae o'n morio drwy sibrwd geiriau newydd, yn hedfan drwy wrando ar eu cerddoriaeth. Weithiau byddai fo'n dianc rhag ei fyd cyffredin, weithiau – dim yn aml – byddai fo'n ffeindio gwlad arall mewn byd arall, byddai fo'n ffeindio cestyll breuddwydiol, rhywbryd hyd yn oed ystafell iddo fo ei hun. Ystafell efo golygfa.

O'r diwedd mae o'n cyrraedd y lle, mae'n clywed y môr, mae'n gweld golygfa'i freuddwydion, yn teimlo ei bresenoldeb, ei gynhesrwydd, ei fynwes, fel galwad o fywyd arall, fel cof yn llithro drwy'i bysedd.

### **Sylwadau Myrddin**

Darn telynegol iawn, yn ymdrin â theimladau a phrofiadau mewn ffordd agored. Gallwn ni gynnwys ein cymeriadau a'n lleoliadau ein hunain yn y darn hwn. Mae creu rhywbeth fel hyn yn dangos dipyn o gamp ar drin geiriau. Mae yma lawer o ymadroddion cofiadwy: 'Mae o'n morio drwy sibrwd geiriau newydd' / a 'fel galwad o fywyd arall, fel cof yn llithro drwy'i bysedd.'

**Pam dysgu'r Gymraeg?**

Pam dysgu'r Gymraeg?  
Hola rhai, ac atebaf innau –

Dw i'n gwneud o dros y mynyddoedd,  
Yn sefyll yn dal ac yn gryf.  
Dw i'n gwneud o ar gyfer y traethau,  
Lle dw i'n cerdded yn aml.

Dw i'n gwneud o dros y môr –  
Gwyliwch y tonnau'n chwalu yn erbyn y clogwyni.  
A pan fydd y dŵr yn dawel,  
Mae morlo yn codi ei ben.

Dw i'n gwneud o ar gyfer yr hen fythynnod cerrig,  
Y tafarndai gwledig traddodiadol.  
Y tai bach sy'n plethu'r stryd fawr,  
Yn holl liwiau'r enfys.

Yn bennaf oll, dw i'n gwneud dros y bobl,  
Sydd mor falch o'l hunaniaeth.  
Os dw i'n medu dysgu ychydig bach,  
Yna dw i'n rhoi yn ôl iddynt,  
A byddaf yn perthyn.

**Sylwadau Myrddin**

Cerdd yn esbonio'r rhesymau dros ei bod yn dysgu Cymraeg. Dwi'n dotio sut mae'n cyfuno'r rhesymau gyda'r profiadau sy'n cael eu cysylltu gyda Nant Gwrtheyrn – y mynyddoedd, y môr, y traethau, y tai cerrig. Ac yna'r uchafbwynt: er mwyn perthyn i'r bobl sy'n perthyn i'r diriogaeth hon. Emosiynol a gwych iawn.

Lefel Sylfaen – Sandy NicDhòmhnaiill Jones

### “Cyffroi'r Geifr”

Ar ddamwain, mi ganais i gân  
am gyffroi'r geifr - ond  
mi fwriadais i gyfri'r geifr, wrth gwrs!

dysgwraig frwd dw i, ond wedi drysu,  
mi gyfnewidais i ddau air tebyg,  
ac mi gyfrifais i yn rhy gyffrous!

Ond beth rŵan, wrth gwrs, tybed?  
Beth yw'r ffordd orau i gyffroi gafr?  
... a pham, ar y ddaear, cyffroi gafr!?

A fasai'r afr yn caniatáu i mi ei chyffroi hi?  
Fasai hi'n gwrido 'n chwithig? Faswn i  
wedi troi gafr wen yn goch?

Ydy cyffroi geifr yn beryglus?  
Ydy hyd yn oed yn gyfreithiol?  
Neu – nefoedd! - porn: gafr las? ...

Fasai'r heddlu yn fy arestio i,  
neu faswn i wedi fy rhoi ar restr ddu'r RSPCA  
wedi fy nghyhuddo o llygru geifr diniwed?

Plâu ydy'r geifr, yn eich barn chi, dw i'n deall;  
mi fyddan nhw'n difa blodau hyfryd y Nant,  
ac yn anrheithio eich gardd lysiau chi.

Ond gwaetha'r modd, mae geifr  
Nant Gwrtheyrn mor wyllt ddifyr i mi  
Fel na fedra i wrthsefyll rhag eu caru nhw.

Mi gyffroais i eich geifr chi,  
chyfrais i ddim ohonyn nhw – maddeuwch!  
Ond maen nhw wedi fy ngogleisio yn ddoniol,  
a rŵan, dan ni pawb wedi ein ticlio 'n binc.

### Sylwadau Myrddin

Mae hon yn gerdd hunandychanol wrth iddi ddefnyddio'r gair anghywir. Cerdd am brofiad dysgwr go iawn yn chwarae ar y gwahaniaeth rhwng Cyfri'r Geifr a Chyffroi'r Geifr! Mae mynegi hiwmor mewn iaith gyntaf yn ddigon anodd, ond dyma un ysgubol o ddoniol a chlyfar mewn ail neu drydedd iaith. Cyfraniad dwyieithog gan lenor medrus.

Lefel Canolradd – Ken Snowball

### **Sgwrs Gafr**

'Nanny, on i'n feddwl bod y glaswellt 'ma, wel, mae gynno fo blas gwahanol'.

'Oes Billy, on i'n feddwl yr un peth.....

Yn ol 'y boffins', os dach chi'n siarad i blanhigion... wel, mae'r planhigion yn tyfu crif. Felly, on i'n feddwl, bod y glaswellt yma wedi clywed llawer o Gymraeg, achos mae pawb yma yn siarad Cymraeg bob tro. Felly, mae gan y glaswellt 'blas Cymraeg!'

'Mmmm..' meddai Billy, ' Mi wnai feddwl amdano fo pan dwi'n cnoi.'

'Mam!'

'Be sy'n bod, Billy bach,' meddai Mam, 'wyt ti'n iawn?'

'Ydw, ond mae gan y glaswellt yma blas rhyfedd.'

'Ha...on i'n just siarad amdano fo efo Dad.... Achos mae pawb yma yn siarad Cymraeg bob tro, dwi'n meddwl bod gan y glaswellt blas Cymraeg. Wyt ti'n licio fo?'

'Dwi ddim yn siwr Mam. Blas cryf ydy o.'

'Ydy wir, mae o'n cryf. Wyt ti'n gweld, mae gan yr iaith Cymraeg lot o bwer a mae gan y glaswellt blas pwerus.'

'Wyt ti'n gafr ifanc ar hyn o bryd, Billy bach. Wnei di dod i ddallt y pwer o iaith, pan wyt ti'n henach.

Beth bynnag, pwy sy'n fancio pwddin? Mae na dillad ar y lein rownd y cefn.....'

### **Sylwadau Myrddin**

Sgwrs ysgafn rhwng y geifr sydd yma. Mae'r geifr yn clywed blas gwell ar laswellt y Nant am fod y planhigion yn tyfu yn Gymraeg. Clyfar a llawn dychymyg! Ac mae darlun o ymateb gwahanol bobl i'r iaith yma hefyd.